

# Osgoi a Datrys Anghytundebau

ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Rhanbarth Canolbarth y De

Cyngor i ysgolion a gynhelir

(Diweddarwyd Mawrth 2022)

MERTHYR TYDFIL County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

RHONDDA CYNON TAF

CARDIFF
CAERDYDD

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

# Cynnwys

Rhagair

1. Cyd-destun – Canllawiau Deddfwriaethol a Statudol – cyfrifoldebau i blant, rhieni a gofalwyr sy'n deillio o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

1. Osgoi Anghytundeb
-Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr
-Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

3.Proses Cynlluniau Datblygu Unigol a siart Osgoi a Datrys Anghytundebau

4. Datrys Anghytundebau
-Syniadau i ddatrys gwrthdaro
-Dyletswydd ALl i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i helpu ysgolion ddeall eu dyletswyddau statudol o dan ddiwygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mewn perthynas â phlant ag ADY neu blant a allai fod ag ADY.

Mae'r canllaw yn ymdrin yn benodol â darparu gwybodaeth a chyngor a dulliau i osgoi a datrys anghytundebau a all godi rhwng ysgolion, plant/pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Dylid darllen y canllaw hwn ochr yn ochr â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (2021).

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents/enacted

# Rhagair

Mae pob rhiant/gofalwr a dysgwyr eisiau gweld bod yr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael eu diwallu, bod dyheadau yn uchel ac y bydd gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw mewn partneriaeth i sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig cyn gynted â phosibl.

I ddiwallu'r dyheadau hyn, mae'r system i gefnogi dysgwyr ag ADY yn newid. Pwysleisiodd y Ddeddf ADYTA newydd mwy o gydweithio a system symlach a llai gwrthwynebus. Mae'n tanlinellu'r angen i roi cymorth a gwybodaeth i sicrhau bod plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn cymryd rhan mor lawn â phosib yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Dylai plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc gael llais go iawn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Dylent hefyd gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth diduedd a gwybod sut i herio penderfyniadau y maent yn anghytuno â nhw. Mae'r ddyletswydd Awdurdod Lleol (ALl) o fewn y Ddeddf i ddarparu systemau tryloyw ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau wedi'u cynllunio i ddarparu dulliau effeithiol o gyngor a chymorth i blant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc i fynd i'r afael â'u pryderon, i herio lle bo angen ac i atal pryderon rhag gwaethygu.

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at ymarferwyr addysgol sy'n gweithio gyda phlant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sydd ag ADY. Mae'r ddogfen hon yn cwmpasu:

- Prif feysydd Deddf ADYTA a'r cyfrifoldebau statudol i blant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sy'n deillio o'r Ddeddf
- Gwerth bod yn rhagweithiol wrth atal anghytundebau a chefnogi dull mwy cydweithredol

Ysgrifennwyd y canllaw hwn mewn partneriaeth â SNAP Cymru, darparwr blaenllaw o ran gwybodaeth a chyngor a gwasanaethau datrys anghytundebau yng Nghymru.

**Mae rhieni a gofalwyr eisiau'r hyn sydd orau i'w plentyn ac mae ganddynt wybodaeth hanfodol ac unigryw am anghenion eu plentyn.**

**Datblygu perthynas sy'n seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch yw asgwrn cefn y bartneriaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc.**



# 1. Cyd-destun - Canllawiau Deddfwriaethol a Statudol

**Creodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 y fframwaith deddfwriaethol i wella'r broses o gynllunio a chyflenwi darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDY), drwy ddull sy'n canolbwyntio ar y person i nodi anghenion yn gynnar, rhoi cymorth effeithiol ar waith a monitro ac addasu ymyriadau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau dymunol.**

## Bydd Deddf ADYTA yn cael ei chefnogi gan:

Rheoliadau– Is-ddeddfwriaeth gyda mwy o fanylion i gefnogi'r Ddeddf

Y Cod ADY – Canllawiau statudol a gofynion gorfodol i helpu pobl a sefydliadau weithio o fewn y gyfraith.

Prif nodau'r Ddeddf yw:

- Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Ystod oedran 0-25
- Cynllun unedig
- Mwy o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan
- System symlach, llai gwrthwynebol
- Mwy o gydweithio
- Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau yn gynt
- Hawl i apelio sy'n glir ac yn gyson

I weld y Ddeddf, dilynwch:

https://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents/enacted

**Pwyntiau Allweddol:**
Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd glir i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys ystyried dymuniadau, safbwyntiau a theimladau plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc; hyrwyddo eu cyfranogiad mor llawn â phosib yn y broses o wneud penderfyniadau drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth; a chydnabod pwysigrwydd osgoi a datrys anghytundebau yn gynnar



Mae **Adran 9 o ADYTA** yn golygu bod rhaid i ALlau wneud trefniadau i roi **gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY**

**Rhaid i'r ALl gymryd camau rhesymol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ei ardal, rhieni/gofalwyr plant yn ei ardal, plant sy'n derbyn gofal sydd y tu allan i'w ardal, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal, a chyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yn ei ardal, cyfeillion achos plant yn ei ardal, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n eu hystyried, yn gwybod am y trefniadau.**

Pwyslais y Ddeddf yw sicrhau, lle ceir anghytundebau ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth sydd ynddo, bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf lleol posibl. Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i'r ALl wneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor ac i osgoi anghytundebau.
Mae'n rhaid i'r ALl gymryd camau i wneud y trefniadau'n hysbys i blant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc.

- Rhaid i'r ALl drefnu i'r gwasanaeth osgoi a datrys anghytundebau gael ei ddarparu gan 'berson sy'n annibynnol ar y partïon' a rhaid iddynt hybu eu defnydd ym mhob cam o'r broses. Mae defnyddio gwasanaeth osgoi a datrys anghytundebau yn ddisgwyliad allweddol.

- Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gymryd camau rhesymol i sicrhau bod rhieni a gofalwyr, dysgwyr a chyfeillion achos yn gwybod am y trefniadau.

## Osgoi a Datrys Anghytundebau

O ran Trefniadau Adran 68 (1) ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau (1) Rhaid i ALl wneud trefniadau gyda'r nod o osgoi a datrys anghytundebau rhwng:

(a) cyrff addysg, a
(b) p0068lant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt, neu yn achos plant o'r fath, eu rhieni/gofalwyr

(2)Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau gyda'r nod o osgoi a datrys anghytundebau rhwng:
(a) perchnogion sefydliadau perthnasol, a
(b) phlant neu bobl ifanc sydd ag ADY y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt ac, yn achos plant o'r fath, eu rhieni/gofalwyr, ynglŷn â'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir ar gyfer plant neu bobl ifanc.

(3)Rhaid i'r trefniadau gynnwys darpariaeth i'r rheini sydd mewn anghytundeb gael cymorth i'w ddatrys gan bersonau sy'n annibynnol ar y partïon.

(4)Rhaid i awdurdod lleol hyrwyddo'r defnydd o'r trefniadau.



**Pwyntiau allweddol – Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2021)** Mae pwyslais y Cod ADY newydd (Y Cod) yn ymwneud â chydweithio, dileu rhwystrau i ddysgu a darparu darpariaeth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Bydd y Cod yn sicrhau bod gan y system ADY newydd set glir o ffiniau, y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu oddi mewn iddynt.

**Deddfwriaeth Ategol – Deddf Cydraddoldeb (2010)**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi bod rhaid i leoliadau hyrwyddo cyfle cyfartal a rhaid iddynt beidio â gwahaniaethu, aflonyddu nac erlid plant anabl.
Mae plentyn neu berson ifanc yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (adran 6) os oes:

'... ganddynt nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Mae gan leoliadau ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' i sicrhau nad yw plant anabl o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â'u cyfoedion. Mae'r ddyletswydd hon yn rhagweladwy - rhaid i leoliadau edrych ymlaen a rhagweld beth allai fod ei angen ar blant anabl a pha addasiadau y gellid eu gwneud i atal unrhyw anfantais.

Mae'n bwysig nodi bod y diffiniad o anabledd yn ehangach nag y mae nifer yn ei dybio, ac felly'n cynnwys mwy o blant.

O leiaf bob tair blynedd, rhaid i ysgol baratoi, gweithredu, adolygu a diweddaru dogfen hygyrchedd ysgrifenedig sy'n nodi sut bydd gwelliannau penodol yn cynyddu hygyrchedd i addysg ar gyfer disgyblion sydd ag anableddau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Rhaid i gynlluniau hygyrchedd ystyried bob agwedd ar addysg ac unrhyw wasanaethau cysylltiedig a ddarperir gan ysgolion.

Gallwch ddarllen y Ddeddf Cydraddoldeb yn llawn fan hyn:
**https://legislation.gov.uk/ukgpa/2010/15/pdfs/ukgpa_20100015_en.pdf**



# 2. Osgoi Anghytundebau

**Mae'n hanfodol bwysig ymgysylltu ac ymwneud â phlant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau drwy roi'r wybodaeth a'r cymorth iawn iddynt.**

## Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr

Rhieni a gofalwyr yw'r dylanwadau pwysicaf ym mywyd plentyn o bell ffordd. Gall eu cefnogaeth chwarae rhan bwysig ym mhob cyfnod addysg. Bydd cynnwys rhieni/gofalwyr yn y cylch cynllunio ac adolygu prosesau yn helpu i sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed a'i gwerthfawrogi.

Mae trafodaeth gynnar gyda'r plentyn, eu rhieni/gofalwyr neu berson ifanc yn rhan hanfodol o'r broses o gasglu gwybodaeth. Dylai'r trafodaethau cynnar hyn gael eu strwythuro yn y fath fodd fel eu bod yn datblygu dealltwriaeth dda o gryfderau ac anawsterau'r dysgwr yn ogystal â phryderon y rhieni/gofalwyr.

Datblygir perthnasoedd iach drwy gyfranogi ac ymgysylltu. Mae rhieni/gofalwyr yn teimlo'n fwy positif pan:

- Gwrandewir ar eu barn a chymerir y farn honno o ddifri;
- Rhoddir gwybodaeth glir a chywir iddynt; Maent yn ystyried bod yr ysgol yn gwneud rhywbeth i helpu;
- Maent yn ymwneud â datblygu dull ar y cyd o ran dysgu eu plentyn;
- Maent yn cael cefnogaeth eraill sy'n deall neu sydd wedi bod drwy brofiadau tebyg; ac
- Ystyrir eu hanghenion mynediad eu hunain.

Bod yn agored, gonest a realistig gyda rhieni/gofalwyr yw sylfaen partneriaeth gadarn. Mae'n bwysig rhannu gwybodaeth bositif gyda rhieni/gofalwyr ond mae rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon yr un mor bwysig.

Mae yna nifer o ffactorau a all ddylanwadu ar sut mae rhieni/gofalwyr yn ymgysylltu ag ysgolion ac mae deall y rhwystrau hyn yn hanfodol fel y gellir mynd i'r afael â nhw er mwyn cynyddu cyfranogiad ystyrlon i'r eithaf.

**Ffactorau sy'n effeithio ar ymgysylltiad:**

- rhieni/gofalwyr yn teimlo nad yw'r ysgol yn groesawgar, yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu, yn teimlo'n euog neu'n teimlo allan o reolaeth;
- maent wedi cael profiadau gwael yn yr ysgol eu hunain ac nid ydynt yn deall pwysigrwydd eu cyfranogiad;
- efallai y bydd gan rieni/gofalwyr anawsterau iechyd, anableddau neu efallai nad oes ganddynt rwydwaith cymorth cymdeithasol effeithiol, gan gynnwys aelodau o deulu estynedig.

Mae hawl y rhiant/gofalwr i herio'r broses ADY os ydynt o'r farn nad yw'n diwallu anghenion eu plentyn yn allweddol i ddatblygu partneriaethau effeithiol.

Gall datblygu perthnasoedd da pan fydd pethau'n mynd yn dda wneud pethau'n haws i'r rhieni/gofalwyr ac athrawon i gysylltu pan fydd gan y naill neu'r llall bryderon.

"I ddechrau, ces i drafferth i wthio drwy'r gwrthwynebiad ro'n i'n ei wynebu mewn cyfarfodydd; ond wrth i amser fynd yn ei flaen, rydw i wedi teimlo'n fwy hyderus i fod yn agored a phendant mewn cyfarfodydd ac i gyfathrebu'n onest am fy nisgwyliadau ar gyfer fy mhlentyn hefyd." - Rhiant

" Ro'n i'n nerfus iawn am gysylltu â'r ysgol ynglŷn â phrofiad fy mab. Ro'dd yna adegau pan nad o'n i'n teimlo'n hyderus i wneud hynny o gwbl, yn enwedig gan nad o'n i wedi cael profiad positif yn y gorffennol. Ond rydw i mor falch mod i wedi gwneud. Er ei bod yn dasg frawychus, yn y pen draw fe lwyddon ni i wneud cynllun ar sut i symud ymlaen gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod anghenion a buddiannau fy mab yn cael eu blaenoriaethu". - Rhiant

## **Pwyntiau allweddol** wrth gefnogi rhieni/gofalwyr i gymryd rhan

- Y teulu yw'r ffynhonnell gyfoethocaf o wybodaeth ynglŷn â'r plentyn;
- Byddwch yn barod i gael deialog agored a gonest ac i ddysgu wrth rieni/gofalwyr a gyda nhw;
- Byddwch yn ymatebol i bryderon y plentyn, eu rhiant/gofalwr, pobl ifanc;
- Gofynnwch beth sy'n bwysig iddyn nhw, a beth hoffent ei weld yn digwydd;
- Cofiwch y gall y rhiant fod yn profi amrywiaeth o emosiynau neu rwystrau – peidiwch â rhoi'r gorau i gynnig cyfleoedd iddynt gymryd rhan;
- Ceisiwch gydnabod bod rhai rhieni/gofalwyr yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu oherwydd eu profiadau eu hunain yn yr ysgol;
- Dangoswch hyblygrwydd wrth gyfathrebu, bod yn ymwybodol o amgylchiadau unigol ac ymateb iddynt;
- Gofynnwch am farn y rhiant/gofalwr bob amser a gwnewch yn siŵr ei bod yn cael ei hadlewyrchu wrth gynllunio ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc;
- Anelwch at ddull partneriaeth gyda chynllunio ar y cyd, gwerthusiadau, a chyfraniadau at osod targedau – mae'r CDU yn berffaith ar gyfer hyn;
- Byddwch yn dryloyw ynglŷn â'r broses, y meini prawf ar gyfer nodi ADY a'r ddarpariaeth yn yr ysgol;
- Cadwch y rhiant a'r plentyn yn ymwybodol o ddatblygiad a llwyddiannau'r plentyn;
- Dewch o hyd i amser a lle priodol i drafod materion mwy sensitif;
- Mae dulliau ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn fannau cychwyn effeithiol ar gyfer sgyrsiau – gan ddarparu gwybodaeth a gweithdai i rieni/gofalwyr;
- Sicrhau bod y CADY yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda holl staff yr ysgol;
- Deall weithiau, er gwaethaf eich cefnogaeth, y bydd rhieni/gofalwyr yn dal i fod angen mynediad at gefnogaeth annibynnol o'r tu allan i'r ysgol;
- Croesawu gwasanaethau osgoi anghytundebau annibynnol i atal anghytundebau rhag gwaethygu.

# Cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr

Mae cyfathrebu effeithiol yn rhoi sylfaen i atal a datrys anghytundebau mewn ffordd gyfeillgar, anffurfiol.

Mae cael ymddiriedaeth rhiant/gofalwr yn hanfodol.

## Cyfathrebu rheolaidd

Cyfathrebu da gyda rhieni/gofalwyr yw cyfathrebu rheolaidd. Mae cyfathrebu gyda rhieni/gofalwyr yn aneffeithiol pan fydd ond yn digwydd fel adwaith neu mewn ymateb i broblem. Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cyfathrebu'n bositif yn rheolaidd â'r ysgol yn ofni clywed wrth yr ysgol neu'n reddfol amddiffynnol neu'n ymosodol ar y gwaethaf.

## Beth mae rhieni yn ei ddweud wrthym sy'n tanseilio eu hyder yn yr ysgol a'r ALl

- Gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn gwrando nac yn rhoi pwys ar bwysigrwydd beth mae rhieni/gofalwyr yn ei ddweud
- Gweithwyr proffesiynol yn cadw gwybodaeth yn ôl wrth rieni/gofalwyr
- Gweithwyr proffesiynol ddim yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd
- Adroddiadau a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol sy'n brin o eglurder a bod yn benodol;
- Gweithwyr proffesiynol yn anodd eu cyrraedd neu ddim yn cyfathrebu gwybodaeth am benderfyniadau neu ddim yn ymateb fel y cytunwyd.

Dylai bob aelod o staff ystyried y pwysau a allai fod ar riant/gofalwr oherwydd anghenion y plentyn. Er mwyn gwneud y cyfathrebu'n effeithiol, dylai gweithwyr proffesiynol:

- Ganolbwyntio ar gryfderau'r plant yn ogystal a meysydd o anghenion ychwanegol;
- Cydnabod buddsoddiad personol ac emosiynol rhieni/gofalwyr a bod yn ymwybodol o'u teimladau;
- Parchu dilysrwydd safbwyntiau gwahanol a chwilio am ffyrdd adeiladol o gysoni gwahanol safbwyntiau.

## Cyfathrebu'n sensitif

Byddwch yn ymwybodol o deimladau rhieni/gofalwyr a chydnabod eu buddsoddiad personol ac emosiynol bob tro. Wrth gyfathrebu, byddwch yn onest ac yn sensitif. Efallai mai chi yw'r person cyntaf i dynnu sylw rhiant/gofalwr at bryderon neu i gadarnhau eu pryderon preifat. Mae'n bwysig felly bod hyn yn cael ei drin yn sensitif. Rhowch ddigon o amser i rieni/gofalwyr a byddwch yn ymwybodol o'r ymatebion emosiynol a allai ddeillio o godi pryder yn y lle cyntaf.

**Mae dull anfeirniadol yn hanfodol**

Parch gwirioneddol tuag at deuluoedd y dysgwyr dan sylw sydd wrth wraidd unrhyw berthynas waith bositif. Mae'n cydnabod mai rhieni/gofalwyr yn benodol yw'r elfen bwysicaf ym mywyd plentyn. Mae dangos parch yn hanfodol i osgoi anghytundebau. Yr un fydd wastad yn elwa fwyaf o'r berthynas bositif hon yw'r dysgwr.

## Cyngor da ar gyfer cyfathrebu â phlant, rhieni/gofalwyr a phobl ifanc

- Byddwch yn glir, yn fanwl ac yn agored;
- Mae hyn yn cynnwys bod yn glir ynglŷn â hyd a lled eich gwybodaeth a bod yn barod i ofyn am arweiniad pellach lle bo angen;
- Darparwch wybodaeth ddibynadwy a, lle bo angen, cyngor annibynnol;
- Sicrhewch fod y wybodaeth yn hygyrch, ac ar gael yn hawdd;
- Gofynnwch i rieni/gofalwyr ynglŷn â'u dyheadau ar gyfer eu plentyn;
- Cadwch at y gyfraith;
- Byddwch yn wrandäwr brwd gydag empathi;
- Byddwch yn agos-atoch ac ar gael i bawb;
- Rhowch ddigon o gyfleoedd i ofyn cwestiynau a chodi pryderon;
- Gofynnwch am safbwyntiau'r plentyn;
- Cadwch sianeli cyfathrebu ar agor – hyd yn oed os ydych yn anghytuno;
- Cyfeiriwch rieni/gofalwyr at ragor o wybodaeth a ffynonellau o gyngor annibynnol am wasanaeth osgoi a datrys anghytundebau.

# Cael protocolau clir i nodi a bodloni ADY

Mae'n hanfodol cael protocol neu weithdrefn glir y cytunwyd arni ar gyfer nodi a bodloni ADY ac i ddeall y ddeddfwriaeth a rhoi sylw priodol i'r Cod ADY.

Mae staff yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddyn nhw neu rieni/gofalwyr bryderon am addysg plentyn neu berson ifanc.

Mae rhannu'r protocolau hyn gyda rhieni/gofalwyr a staff dysgu o'r cychwyn cyntaf yn atal diffyg ymddiriedaeth rhag datblygu ac yn helpu i osgoi camddealltwriaeth.

Bydd rhieni/gofalwyr yn llawer mwy agored i drafod os yw athrawon yn wybodus ac yn gallu dangos eu bod yn nabod y plentyn a chael arsylwadau a thystiolaeth i ategu unrhyw gasgliadau. Dylid wastad annog rhieni/gofalwyr i drafod eu pryderon gydag athro dosbarth neu Gydlynydd ADY eu plentyn. Dylai'r ysgol allu esbonio sail unrhyw benderfyniadau a gwrando ar bryderon a cheisio eu datrys cyn gynted â phosibl.

- Helpwch rieni/gofalwyr i ddeall 'y system' ac egluro beth rydych yn ei wneud a pham;
- Rhannwch wybodaeth gyda rhieni/gofalwyr ynglŷn a sut mae pethau'n gweithio e.e. derbyniadau, gweithdrefnau ar gyfer nodi ADY, atgyfeiriadau Cynlluniau Datblygu Unigol, pontio, adolygiadau etc.;
- Byddwch yn dryloyw a gonest ynglŷn a'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer ADY plentyn;
- Mae angen i rieni/gofalwyr wybod at bwy y dylen nhw fynd pan fydd angen iddynt drafod materion pwysig sy'n ymwneud â'u plentyn;
- Gwnewch yn siŵr bod rhieni/gofalwyr yn gwybod ac yn deall rôl CADY;
- Sicrhewch fod gan rieni/gofalwyr gopi o'ch polisïau perthnasol;
- Dylech wybod yr adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo'r plentyn a rhieni/gofalwyr helpu i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth a all helpu i ddatblygu eu dirnadaeth a'u dealltwriaeth o anghenion eu plentyn;
- Darparwch wybodaeth ar sut i gael gafael ar gyngor a gwybodaeth annibynnol, eiriolaeth broffesiynol, a gwasanaethau osgoi a datrys anghytundeb i sicrhau bod y teulu a'r bobl ifanc yn gallu datgan eu pryderon yn glir ar ôl cael gwybod yn briodol am eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

# Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth

Dylai rhieni/gofalwyr allu cael mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw, pan fydd ei hangen arnyn nhw, mewn fformat hygyrch.
Mae angen gwybodaeth ar rieni/gofalwyr sy'n:

- Hawdd i'w chanfod, hawdd ei deall, ac y gellir ymddiried ynddi;
- I'w helpu i ddeall anghenion eu plentyn ac i wneud yn siŵr eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw;
- Gwybod beth i'w ddisgwyl wrth ysgol eu plentyn a'r awdurdod lleol.

Mae cael gwybodaeth yn galluogi rhieni/gofalwyr i gefnogi eu plentyn a phenderfynu sut i wneud y mwyaf o'u cynnydd wrth ddysgu i'w galluogi i wireddu eu potensial. Mae rhieni/gofalwyr gwybodus yn fwy hyderus ac yn fwy abl i wneud dewisiadau priodol ar gyfer eu plant ac yn llai tebygol o fod mewn anghytundeb neu wrthdaro ag ysgolion. Mae gwybodaeth yn rymusol ac yn dryloyw; mae gwybodaeth ddibynadwy yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac yn helpu i atal anghytundebau.

## Cael cyfarfodydd positif gyda rhieni/gofalwyr

Mae'n bwysig bod rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i blant ag ADY.
Y cyfarfodydd mwyaf llwyddiannus gyda phlant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc ag ADY yw'r rheini sy'n deillio o ddeialog barhaus a lle bo gan yr athro a'r rhiant berthynas bositif yn barod.
Dylai plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc gael eu cynnwys yn llawn mewn adolygiadau o'r cymorth a ddarperir a chael gwybodaeth glir am effaith y cymorth a'r ymyriadau ar ddysgu – gan eu galluogi i fod yn rhan ganolog ac annatod o gynllunio'r camau nesaf.

## Paratoi ar gyfer cyfarfodydd

- Gwnewch yn siŵr bod rhieni/gofalwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl – mae taflenni gwybodaeth, hyfforddiant a gweithdai i rieni/gofalwyr yn ddefnyddiol cyn mynychu cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac adolygiadau Cynlluniau Datblygu Unigol;
- Ystyriwch y dyddiadau a'r amseroedd mwyaf cyfleus i'r rhieni/gofalwyr ar gyfer cyfarfodydd - byddwch yn hyblyg ynglŷn â phryd neu ble y byddwch yn cwrdd;
- Rhowch ddigon o rybudd am gyfarfodydd i ganiatáu rhieni/gofalwyr i baratoi, trefnu amser o'r gwaith neu ofal plant;
- Sicrhewch fod plant a phobl ifanc wedi cael help cyn yr adolygiad i gasglu gwybodaeth y gellir ei rhannu yn y cyfarfod;
- Cefnogwch y dysgwr i ddatblygu eu proffil un dudalen;
- Efallai y bydd pobl ifanc am ddod ag eiriolwr annibynnol i'r cyfarfod;
- Dylech annog rhieni/gofalwyr i ddod â ffrind/perthynas neu berson annibynnol os ydynt yn teimlo bod angen cefnogaeth arnyn nhw;
- Mae'n ddefnyddiol cael agenda i'w roi i rieni/gofalwyr ymlaen llaw;
- Byddwch yn benodol am ddiben y cyfarfod fel bod rhieni/gofalwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl a chaniatáu i rieni/gofalwyr feddwl am yr hyn yr hoffent ei ddweud neu sôn amdano yn y cyfarfod i helpu i baratoi a threfnu a rhannu pecyn cymorth Llywodraeth Cymru gyda theuluoedd am adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn http://learning.gov.wales/
- Sicrhewch fod rhieni/gofalwyr yn gwybod pwy arall fydd yn y cyfarfod;
- Gwnewch yn siŵr bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch, fel asesiadau, cynnydd tuag at ganlyniadau, llwyddiannau diweddar, arsylwadau etc.;
- Os oes angen i rieni/gofalwyr ddod â phlant neu fabis iau i'r cyfarfod gyda nhw, naill ai ceisiwch drefnu gofal plant neu wneud yn siŵr bod teganau a llyfrau i'r plentyn chwarae â nhw;
- Penderfynwch pwy fydd yn hwyluso'r cyfarfod a phwy fydd yn cymryd nodiadau – mae'n anodd iawn gwneud y ddau. Cofnodwch gamau gweithredu o'r cyfarfod a'u dosbarthu cyn gynted â phosibl.

## Cyngor Da - Cyfarfodydd CDU

- Cyflwynwch bawb neu gofynnwch i bobl gyflwyno eu hunain;
- Byddwch yn sensitif i sut gallai rhieni/gofalwyr fod yn teimlo, rhowch amser i rieni/gofalwyr addasu i'r wybodaeth a roddwyd;
- Sicrhewch fod y dysgwr wastad yn ganolog i'r drafodaeth a chanolbwyntiwch ar ddyheadau'r dysgwr a'i deulu;
- Defnyddiwch ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddeall beth sy'n bwysig i'r dysgwr a beth sy'n bwysig i'r dysgwr ei ddatblygu ac i symud ymlaen;
- Dechreuwch gyda'r pethau positif - cadarnhad, rhinweddau, cryfderau a llwyddiannau;
- Dadansoddwch beth sy'n gweithio a beth sydd ddim o wahanol bersbectif;
- Datblygwch gynllun gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Ceisiwch osgoi eu gorlethu â gormod o wybodaeth neu gwestiynau; osgowch gofyn i rieni/gofalwyr wneud penderfyniadau ar unwaith;
- Gwnewch yn siŵr bod rhieni/gofalwyr yn cael cyfle i roi sylwadau ar farn y bobl eraill sy'n bresennol;
- Gwrandewch yn astud a chyda meddwl agored ar farn pobl eraill;
- Osgowch ddod i gasgliadau cynnar am farn pobl eraill a/neu am atebion posibl;
- Gwahoddwch gwestiynau a sylwadau i egluro tybiaethau, canfyddiadau a gwybodaeth;
- Gofynnwch am eglurhad am farn a theimladau pobl eraill;
- Ceisiwch osgoi defnyddio jargon ac eglurwch unrhyw derminoleg y gellir ei defnyddio;
- Cynigiwch amser i gael egwyl neu ddiod os yw rhiant yn ymddangos fel pe bai o dan straen neu ofid ar unrhyw adeg;
- Crynhowch ganlyniadau'r cyfarfod fel bod pawb yn glir ynglŷn â'r hyn y cytunwyd arno;
- Cytuno ar gyfrifoldebau a dyddiadau adolygu;
- Gosodwch ddyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf tra bydd pawb yn bresennol;
- Cytunwch pwy fydd yn ysgrifennu'r cynllun a'i ddosbarthu.

# Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae'r Ddeddf ADY yn ei gwneud yn ofynnol i safbwyntiau plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc gael eu hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio.
Mae'n hollbwysig bod plant a phobl ifanc yn gweld y broses gynllunio fel rhywbeth sy'n cael ei wneud gyda nhw ac nid iddyn nhw.
Rhaid i ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau am eu ADY a DDY.
Mae hyn yn cynnwys cydweithio â phlant a phobl ifanc drwy gydol y broses o ddatblygu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol.

## Gwerth barn disgyblion

- Ymgysylltiad, lles a dysgu gwell ymhlith disgyblion;
- Gwell perthnasoedd gyda staff a chyfoedion;
- Gwell canlyniadau a chynnydd i'r plentyn/person ifanc;
- Galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw;
- Gall y plentyn/person ifanc sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer ei ddyfodol gymryd rhan weithredol mewn gosod targedau.

## Gwybodaeth i blant a phobl ifanc

Mae gwybodaeth yn allweddol i alluogi plant a phobl ifanc wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwybodus. Gall dysgwyr gael eu cynnwys ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau ar ryw lefel, o gael y cymorth a'r cymhelliant cywir.

Mae angen i wybodaeth fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch; gwybodaeth weledol neu amlsynhwyraidd sydd hawsaf yn aml. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys fersiynau hawdd eu darllen, ffotograffau, lluniau neu sain.

Efallai y bydd angen amser neu gymorth ychwanegol arnyn nhw i amsugno a deall gwybodaeth ac i ddatblygu eu negeseuon, ymatebion neu farn fel y gallan nhw gyfrannu'n ystyrlon ac yn gyfartal.

Mae rhai plant a phobl ifanc yn dda am ddisgrifio'r hyn maen nhw ei eisiau neu ei angen – mae angen mwy o gymorth ar eraill. Mae nifer o blant a phobl ifanc ag ADY yn gyfarwydd â chael penderfyniadau wedi'u gwneud ar eu rhan. Weithiau mae'n cymryd newid mawr i blentyn neu berson ifanc rannu ei farn neu i wneud penderfyniadau drosto' i hun

## Gwybodaeth i blant a phobl ifanc

- Crëwch wybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch
- Rhowch wybodaeth i blant a phobl ifanc ymlaen llaw h.y. cyn cyfarfod neu weithgaredd fel bod ganddyn nhw ddigon o amser i'w hystyried a phenderfynu beth maen nhw eisiau ei ddweud
- Cael dulliau gwahanol ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod sut i wneud cwynion neu godi pryderon
- Rhowch fanylion am wasanaethau eiriolaeth a sut i ofyn am gymorth i osgoi anghytundebau neu ffrind achos lle bo'n briodol.

## Cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan

- Ceisiwch wybod eu hoff ddull cyfathrebu fel y gallwch ddarparu ystod o gyfleoedd ar gyfer eu cyfraniadau
- Sicrhewch fod plant a phobl ifanc wedi cael cymorth cyn yr adolygiad i gasglu gwybodaeth y gellir ei rhannu yn y cyfarfod
- Cefnogwch y dysgwr i ddatblygu eu proffil un dudalen gweler: **https://gov.wales/how-prepare-your-person-centred-review**
- Byddwch yn ymwybodol o'r cydbwysedd pŵer sy'n bodoli rhwng oedolion a phlant a phobl ifanc a sut y gallai hyn effeithio ar eu cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau ystyrlon.
- Sicrhewch fod y broses yn canolbwyntio ar y plentyn.
- Dangoswch i’r plentyn neu berson ifanc fod eu safbwyntiau a’u cyfranogiad wedi’u gwerthfawrogi.
- Rhowch amser i blant a phobl ifanc gyfrannu
- Sicrhewch eich bod yn rhoi cyfle i'r plentyn neu berson ifanc gadarnhau eich bod wedi dehongli eu barn yn gywir. Byddwch yn ofalus i beidio ag arwain na gadael i’ch barn ragfarnu barn y plentyn neu’r person ifanc
- Defnyddiwch amrywiaeth o ddulliau. Mae arferion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyfeirio at ystod o ddulliau meddwl ymarferol sydd wedi’u sefydlu fel arfer da ac sy’n canolbwyntio ar ddyheadau’r dysgwr a’u teulu.

## Proffiliau Un Dudalen

Mae Proffil Un Dudalen yn casglu’r holl wybodaeth bwysig am berson ar un dudalen o bapur o dan dri phennawd syml: ‘beth mae pobl yn ei werthfawrogi amdana i’, ‘beth sy’n bwysig i fi’ a ‘y ffordd orau o’m cefnogi’. Pwrpas y proffil un dudalen yw rhoi gwybodaeth i'r darllenydd a fydd yn eu helpu i ddeall y ffordd orau o gefnogi'r dysgwr. Datblygir Proffil Un Dudalen drwy ddod â chyfraniadau’r plentyn, eu rhieni/gofalwyr, pobl ifanc a staff addysgu at ei gilydd. Mae hyn yn creu darlun crwn sy’n adlewyrchu barn y dysgwr ac arbenigedd pawb.

**http://helensandersonassociates.co.uk/person-centred-practice/one-page-profiles/**



# 3.

# Y Broses CDU

## Cydweithio, osgoi a datrys anghytundeb yn gynnar

Bwriad y broses gynhwysol o ddatblygu CDU a'r gofyniad i ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, person ifanc neu riant yw goresgyn pryderon ac osgoi anghytundeb.

Dylai pwyslais ysgolion ac awdurdodau lleol fod ar roi cyfle i deuluoedd godi pryderon neu gwestiynau ar bob cam o’r broses i atal problemau rhag gwaethygu ac i osgoi anghytundebau.



**Dylai ysgolion:**

- Roi sicrwydd i blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr y bydd trafodaethau a’r broses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar fudd pennaf y dysgwr;
- Creu amgylchedd lle gellir mynd i'r afael â'r pryderon yn gyflym drwy ddeialog agored ac adeiladol;
- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu hegluro a'u deall yn gywir;
- Rhoi mynediad at gyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol;
- Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu mynegi eu pryderon yn glir ar ôl cael eu hysbysu'n briodol am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, gan ddarparu eiriolwr lle bo angen;
- Darparu mynediad cynnar ac annog rhieni/gofalwyr i ddefnyddio Gwasanaeth Osgoi a Datrys Anghytundebau SNAP Cymru.

Mae'r siart ar y tudalennau canlynol yn dangos y broses o adnabod ADY dysgwr a’r llwybrau i ddatblygu Cynllun Datblygu Unigol.
Mae'r map hefyd yn dangos y llwybrau ar gyfer atgyfeirio penderfyniadau i'w hailystyried i'r ALl a gwneud iawn i’r Tribiwnlys Addysg.

Drwy gydol y map, ceir mannau lle mae’n rhaid i’r ALl ‘hysbysu’ rhieni/gofalwyr o’r Gwasanaeth Datrys Anghytundebau yn ffurfiol. Serch hynny, gall rhieni/gofalwyr gael mynediad at wasanaethau datrys anghytundebau unrhyw bryd drwy gydol y broses ac mae cynnwys gwasanaethau datrys yn gynnar yn atal anghytundeb rhag gwaethygu mewn ffordd ddibynadwy a dylid ei annog a’i ddefnyddio cyn gynted â phosibl.

# Y Broses Cynlluniau Datblygu Personol

**Penderfyniadau Ysgolion**

Rhieni neu ysgol PPI yn poeni y gallai fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol

PPI neu riant yn cwrdd ag athro dosbarth y plentyn neu Gydlynydd ADY i drafod pryderon

Ysgol yn penderfynu nad oes gan PPI unrhyw ADY – hysbysu PPI/rhieni

PPI neu rieni yn anhapus gyda'r penderfyniad – ysgol yn hysbysu'r rhiant o'r hawl i ofyn i'r ALl ailystyried

Cytuno bod gan PPI ADY a datblygu CDU

CDU yn cael ei weithredu a CDU yn cael ei adolygu bob 12 mis neu'n gynt yn ôl yr angen

PPI neu rieni yn anhapus gyda chynnwys y CDU – ysgol yn hysbysu'r rhiant o'r hawl i ofyn i'r ALl ailystyried

Os bydd plant, pobl ifanc neu rieni yn anghytuno â phenderfyniadau a wneir gan ysgolion neu ALlau ar unrhyw adeg yn ystod y broses hon, gallan nhw gael cyngor a chymorth i osgoi a datrys anghytundebau.

ADY PPI yn dod i sylw'r ALl (PDG etc.)

Yn dangos lle gallai cyngor a chymorth annibynnol i blant a rhieni fod yn ddefnyddiol i atal anghytundebau rhag gwaethygu

CDU yn ei le

Ysgol, PPI neu riant yn gofyn i'r ALl ailystyried y cynllun

## Allwedd:

ADY - Anghenion Dysgu Ychwanegol
DD - Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol
CD - Cynllun Datblygu Unigol
PPI - Plentyn / Person Ifanc
TAC - Tribiwnlys Addysg Cymru
ALl - Awdurdod Lleol
PDG - Plentyn sy'n Derbyn Gofal

CDU yn ei le

Ysgol, PPI neu riant yn gofyn i'r ALl gymryd cyfrifoldeb am y cynllun

CDU yn ei le

Ysgol yn penderfynu rhoi'r gorau i gynnal y cynllun – yn hysbysu PPI a'r rhiant o'u hawl i ofyn i'r ALl ailystyried

PPI neu riant yn anhapus gyda'r penderfyniad i roi'r gorau i gynnal y CDU

# Datrys Anghytundeb

**Penderfyniadau Awdurdod Lleol**

**Tribiwnlys Addysg Penderfyniadau Cymru**

Y plentyn, person ifanc neu riant yn gofyn i'r ALl ailystyried penderfyniad yr ysgol

ALl yn cadarnhau penderfyniad yr ysgol - 'dim ADY' ac yn esbonio'r rheswm

ALl yn hysbysu PPI a'r rhiant o'r penderfyniad a'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Addysg

Apelio i TAC

ALl yn cytuno bod gan PPI ADY, rhaid i ALl naill ai: paratoi CDU a chyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal; neu gyfarwyddo'r ysgol i'w baratoi a'i gynnal

Dyletswydd ALl i ailystyried cynllun – a ddylid adolygu CDU

ALl yn penderfynu na ddylid diwygio'r cynllun – ALl yn hysbysu'r PPI a'r rhiant o'r penderfyniad ac yn egluro'r rhesymau, ac yn cynghori ar yr hawl i apelio i TAC

Apelio i TAC

ALl yn penderfynu y **dylid** adolygu'r CDU

ALl yn paratoi cynllun diwygiedig a naill ai'n cyfarwyddo'r ysgol i gynnal y cynllun neu i gymryd cyfrifoldeb am y cynllun

Dyletswydd ALl i benderfynu

ALl yn paratoi ac yn cynnal CDU – os na ellir diwallu'r anghenion rhesymol am ddarpariaeth anghenion ychwanegol oni bai bod yr ALl yn sicrhau darpariaeth

Os oes ADY – rhaid i'r ALl naill ai
- paratoi a chynnal CDU
- Paratoi cynllun a chyfarwyddo'r Ysgol i gynnal y cynllun
- cyfarwyddo'r ysgol i baratoi a chynnal y cynllun

Dyletswydd ALl i ailystyried cynllun – a ddylid adolygu CDU

ALl yn penderfynu **na ddylid** adolygu'r CDU

Hysbysir PPI neu riant o'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad

Apelio i TAC os yn anhapus gyda'r canlyniad

ALl yn penderfynu y dylid adolygu'r cynllun
• ALl yn adolygu'r cynllun ac yn cyfarwyddo'r ysgol i gynnal y cynllun
• ALl yn cymryd y cyfrifoldeb dros gynnal y cynllun

Dyletswydd ALl i benderfynu a ddylid cymryd y cynllun drosodd

ALl yn cymryd cyfrifoldeb am y cynllun

Nid yw'r ALl yn cymryd cyfrifoldeb am y cynllun. h.y. dim newid sylweddol dim gwybodaeth newydd

Hysbysir PPI/rhieni o'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Addysg

Apelio i TAC

ALl yn ailystyried penderfyniad

ALl yn cadarnhau penderfyniad yr ysgol. Dylid rhoi'r gorau i gynnal CDU

Hysbysu PPI a rhiant o hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i TAC

Dylai CDU barhau – rhaid i'r ysgol barhau â'r cynllun



# 4. Datrys Anghytundebau

O dro i dro, gall anghytundebau ddigwydd o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol plentyn neu berson ifanc. Mae'r system ADY newydd yn rhoi dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhieni/gofalwyr neu bobl ifanc i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth diduedd.

# Syniadau ar gyfer datrys anghytundebau

Mae'r broses CDU, sy'n defnyddio dulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gydweithredol ac yn bositif. Serch hynny, o bryd i'w gilydd, ac er gwaethaf ymdrechion gorau pawb, gall y broses arwain at roi straen ar berthnasoedd, sydd byth er budd pennaf y dysgwr.

Gall anghytundebau ddigwydd pan fydd gan rieni/gofalwyr ddisgwyliadau o ysgolion a'r ALl sydd naill ai'n anghydnaws ag adnoddau neu nad ydynt yn cyd-fynd ag ymchwil neu bolisïau. Cyn belled ag y bo modd, dylid osgoi neu ddatrys anghytundebau drwy ddeialog cyn gynted â phosibl ac ar y lefel fwyaf lleol.

### Cofiwch ystyried bod:

- Anghytundeb yn rhan naturiol o berthnasoedd.
- Gall anghytundebau sy'n cael eu datrys yn effeithiol fod yn ffynhonnell ar gyfer perthnasoedd cryfach.
- Gall ysgolion fod yn rhagweithiol i leihau'r tebygolrwydd o wrthdaro niweidiol.
- Efallai na fydd athrawon a rhieni/gofalwyr wastad yn gallu rheoli a datrys gwrthdaro – weithiau mae angen help trydydd parti arnynt.

Ar unrhyw adeg, mae osgoi a datrys anghytundeb yn llwyddiannus yn dibynnu ar allu pawb dan sylw i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r materion a'r pryderon. Rhaid i gynnydd a llesiant y plentyn neu'r person ifanc fod yn brif ffocws pob trafodaeth. Mae cyfathrebu da a meddwl adeiladol yn hollbwysig. Mae datrys anghytundeb yn llwyddiannus yn dibynnu ar allu'r holl gyfranogwyr i feddwl yn adeiladol drwy'r amser ac osgoi agweddau ac ymddygiadau a all rwystro cynnydd.

### Mae meddwl yn adeiladol yn cynnwys:

- Credu y gellir dod o hyd i ateb;
- Credu bod pob parti yn canolbwyntio ar fudd pennaf y plentyn neu berson ifanc ac eisiau dileu unrhyw rwystrau i ateb;
- Derbyn y gellir cael mwy nag un ffordd o ddatrys problem.

## Os oes anghytundeb yn codi, mae angen ei reoli'n rhagweithiol ac yn bositif

- Dylech gydnabod teimladau a phryderon y plentyn, person ifanc neu rieni/gofalwyr. Drwy wneud hynny, rydych yn dangos iddynt eu bod yn cael eu cymryd o ddifri a'ch bod yn parchu eu safbwynt. Heb hyn gall gwrthdaro gynyddu'n hawdd, weithiau yn ddiangen.
- Rhowch sylw i gyfathrebu di-eiriau, fel iaith y corff a thôn y llais. Gofynnwch i egluro o ble mae'r person arall yn dod, a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n deall beth maen nhw'n ei olygu.
- Cofiwch y gall dau berson fod â barn wahanol iawn am yr un sefyllfa, felly gall dychmygu sut byddech chi'n teimlo ac yn ymateb o'u safbwynt nhw helpu i feithrin gwell dealltwriaeth mewn unrhyw sefyllfa o wrthdaro.
- Byddwch yn wrandäwr gweithredol, gan ddangos parch at safbwynt rhiant/gofalwr.
- Byddwch yn ymwybodol o sut gellir camddehongli geiriau mewn e-byst a negeseuon testun.
- Eglurwch y broblem, gwiriwch ragdybiaethau a gwahoddwch drafodaeth.
- Anghofiwch unrhyw syniad eich bod yn "iawn" a'u bod nhw'n "anghywir" – yn lle hynny canolbwyntiwch ar helpu'r plentyn neu'r person ifanc ar y cyd.
- Byddwch yn barod i ddod o hyd i dir cyffredin; mae gofyn am gymorth gan y gwasanaeth datrys anghytundebau yn opsiwn positif.

## Disagreement Resolution

| Gwnewch | Peidiwch â gwneud |
|---|---|
| Edrych am ateb | Edrych am rywun i'w feio |
| Canolbwyntio ar fuddiannau'r plentyn/person ifanc | Canolbwyntio ar y personoliaethau dan sylw |
| Canolbwyntio ar y broblem | Canolbwyntio ar reolaeth |
| Defnyddio deialog | Cymryd agwedd wrthwynebol a chymryd rhan mewn dadl |
| Meddwl "y gall pawb ennill" | Meddwl bod "rhywun yn gorfod colli" |
| Canolbwyntio ar newid | Canolbwyntio ar ganlyniad a bennwyd ymlaen llaw |
| Edrych ymlaen | Meddylu am y gorffennol |

Gall dulliau o ddatrys anghytundebau amrywio o sgyrsiau sy'n gymharol anffurfiol i gyfarfodydd cyfryngu ffurfiol sydd wedi'u hwyluso. Beth bynnag fo'r dull a ddefnyddir ac ar ba bynnag gam, mae'n bwysig i bawb gadw meddwl agored yn ystod trafodaethau a bod yn barod i ystyried atebion creadigol.

Mae ymdrin ag anghytundebau yn gofyn am gyfuniad o wybodaeth am y gweithdrefnau a'r ddeddfwriaeth berthnasol, ynghyd â sgiliau ar gyfer ymdrin â materion emosiynol yn sensitif ac yn effeithiol. Gall y modd yr ymdrinnir â'r anghytundeb gael effaith sylweddol ar y berthynas rhwng yr ysgol a rhieni/gofalwyr, ac yn y pen draw, y plentyn neu berson ifanc. Gall dull sydd naill ai'n wrthwynebol neu'n ddiystyriol achosi i'r anghytundeb waethygu'n ddiangen.

### Camau i ddatrys problemau a datrys anghytundeb

- Diffiniwch y broblem, a phennwch sut mae eraill yn diffinio'r broblem;
- Trafodwch unrhyw safbwyntiau gwrthgyferbyniol a chytunwch ar ddiffiniad cyffredin o'r broblem;
- Rhannwch wybodaeth a syniadau; Nodwch dybiaethau a gwybodaeth/data cysylltiedig y mae dealltwriaeth pob parti yn seiliedig arnynt;
- Nodwch wahanol safbwyntiau ac eglurwch y meddwl y tu ôl iddynt;
- Tynnwch sylw at syniadau a gwybodaeth newydd a allai effeithio ar y canlyniad;
- Cynhyrchwch ac archwiliwch atebion posib;
- Byddwch yn realistig: nodwch oblygiadau pob ateb drwy ddarogan goblygiadau;
- Dewiswch ateb a datblygwch gynllun gweithredu, gan gynnwys mesurau canlyniadau.

## Mae'r rhestr ganlynol o sgiliau yn fframwaith defnyddiol

**Sgil 1 –** Mynegwch eich hun a disgrifiwch eich safbwynt. Mae'r atebion gorau yn caniatáu ar gyfer buddiannau dilys y ddau barti. Er mwyn i hynny ddigwydd, rhaid i chi fynegi eich safbwynt yn llawn a rhaid i chi wrando'n ofalus ar yr hyn y mae'r partïon eraill yn ei ddweud. Cymerwch amser i ddisgrifio ac egluro eich safbwynt. Rhowch resymau, enghreifftiau, neu dystiolaeth berthnasol i helpu'r rhiant ddeall pam fod gennych y safbwynt sydd gennych.
Un o'r sgiliau allweddol o ran datrys problemau yw datgelu'n glir eich dehongliad eich hun o broblem ac i roi rhesymau ategol.

**Sgil 2 –** Gwrandewch am ddealltwriaeth ddofn. Mae gwrando'n ofalus mewn ymateb i gwynion yn adfer ymddiriedaeth. Mae eich parch at syniadau a phryderon y person arall yn helpu i adeiladu perthynas waith. Dylech wrando ar y ffeithiau a deall sut mae'r ffeithiau wedi'u dehongli. Rhaid i chi ddeall cynnwys emosiynol y sefyllfa yn ogystal â'r manylion ffeithiol. Mae yna fantais hirdymor hefyd. Mae gwrando yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i atal neu ddatrys sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol.

**Skill 3 –** Gwiriwch eich dealltwriaeth. Mae nifer o anghytundebau yn gwaethygu oherwydd camsyniadau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymateb yn briodol.
Gall rhyngweithio sy'n emosiynol arwain yn hawdd at gamddealltwriaeth.

**Sgil 4 a 5 –** Ail-archwiliwch eich safbwynt a helpwch y person arall i ail-archwilio eu safbwynt nhw. Mae pobl yn tueddu i glywed gwybodaeth sy'n cadarnhau'r hyn maen nhw'n ei gredu ar hyn o bryd. Cadwch feddwl agored i wella'r canlyniad. Pan nad yw pobl wedi penderfynu beth ddylai'r canlyniad fod, nid ydynt mor sicr am eu sefyllfa gychwynnol, maent yn fwy petrus ac yn fwy hyblyg wrth chwilio am ateb. Mae bod yn agored yn sbarduno archwilio opsiynau a dewisiadau eraill, ac mae hyn, yn ei dro, yn annog y person arall i gymryd safiad mwy hyblyg. Mae'r gallu i gynnwys y parti arall wrth ailystyried eu persbectif yn sgil lefel uchel sy'n gofyn i chi herio a pharchu safbwynt y llall. Dyma lle mae gwrando da yn talu ar ei ganfed. Mae'r rhiant yn fwy tebygol o ddilyn eich arweiniad wrth ail-archwilio eich persbectif os ydyn nhw'n teimlo eich bod chi wir wedi gwrando arnyn nhw.

**Sgil 6 –** Cytunwch ar beth i'w wneud nesaf. Ceisiwch ddod o hyd i atebion sy'n bodloni buddiannau dilys pob parti. Hyd yn oed ar ôl cymryd yr holl gamau uchod, efallai na fydd yr ateb gorau yn amlwg i chi. Rhaid i chi hefyd weithio gyda rhanddeiliaid i lunio'r ateb gorau posib.

Mae nifer o bobl yn fwy medrus wrth gyflwyno eu safbwynt eu hunain nag ymchwilio'n ddwfn i farn y rhiant a gwirio eu dealltwriaeth ohoni.

Yn seiliedig ar waith Deidre M. LeFevre a Viviane M.J. Robinson, Educational Administrative Quarterly, 2015, Volume 5, Number 1, t. 58-95.

# Dyletswydd ALl i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau

Mae pob ALl o fewn Rhanbarth Canolbarth y De yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau datrys anghytundebau annibynnol ar gael i blant, rhieni/gofalwyr a phobl ifanc o fewn eu hardal.

Darperir y gwasanaeth hwn gan SNAP Cymru ar hyn o bryd. Mae defnyddio gwasanaethau osgoi a datrys anghytundebau yn wirfoddol ac mae'n rhaid iddo gael cytundeb pob parti. Er iddo gael ei gomisiynu gan yr ALl, mae'r gwasanaeth yn annibynnol a chaiff ei reoli a'i archwilio'n annibynnol.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY fynediad at y broses datrys anghytundebau. Y bwriad yw cynnig ffordd ddiduedd, ddibynadwy a di-wrthwynebol i ddatrys anghytundebau o'r dyddiad cynharaf posibl.

Pwrpas datrys anghytundeb yw peidio â rhoi bai, ond i chwilio am ffordd o ddatrys anghytundebau drwy ddod o hyd i ateb i wahaniaeth barn er lles pennaf y plentyn neu berson ifanc.

## Manteision defnyddio Gwasanaethau Osgoi a Datrys Anghytundebau

- Mae trefniadau osgoi a datrys anghytundebau yn cwmpasu pob plentyn a pherson ifanc ag ADY, ac nid y rheini sy'n cael eu hasesu ar gyfer Cynllun Datblygu Unigol neu sydd â Chynllun Datblygu Unigol yn unig;
- Maent yn cynnig ffordd gyflym a di-wrthwynebol o ddatrys anghytundebau;
- Maent yn darparu cymorth ymarferol a hygyrch i ddod â'r partïon perthnasol at ei gilydd i sicrhau ateb cynnar ac anffurfiol i anghytundebau drwy drafod a chytundeb;
- O'u defnyddio'n gynnar gallant atal yr angen am gyfryngu mwy ffurfiol ac apeliadau i'r Tribiwnlys:
- Mae'r trefniadau'n anffurfiol ac yn hygyrch, ac yn cynnig proses syml wedi'i chynllunio i ddod ag ysgolion/ALl a rhieni/gofalwyr at ei gilydd i nodi pryderon ac egluro materion i'w datrys;
- O ran anghytundebau, gall rhieni/gofalwyr gael mynediad at y gwasanaeth unrhyw bryd;
- Yn gyffredinol, y nod yw lleihau'r angen i fynd ag anghytundeb i'r tribiwnlys. Dylai arwain at ateb cyflymach i unrhyw anghytundeb, arbed amser ac arian sylweddol, a lleihau faint o darfu a wneir ar addysg y plentyn neu berson ifanc;
- O'i ddefnyddio'n effeithiol, gall y gwasanaeth hwn helpu i leihau straen ymhlith staff ysgol a rhieni/gofalwyr ac adfer perthnasoedd;
- Mae ffynonellau gwybodaeth annibynnol a dehongliad cywir o'r gyfraith a'r rheoliadau yn allweddol i sicrhau bod pawb yn cydweithio mewn partneriaeth.